
# 8 taith gerdded GYNALIADWY

DARGANFOD CEFN GWLAD SIR DDINBYCH AR FWS





gogledddcymru_northeastwales

NthEastWales

@NthEastWales

North East Wales

twristiaeth@sirddinbych.gov.uk

www.gogleddddwyraincymru.cymru

**Canolfannau Croeso**

Pentref y Plant, Rhodfa’r Gorllewin,
Y Rhyl LL18 1HZ
01745 355068

Y Capel, Heol y Castell, Llangollen LL20 8NU
01978 860828

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Gwych gyda’n gilydd | NORTH EAST WALES Altogether brilliant

# Gadewch y car gartref

Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan perffaith i gerdded. Dyma un o'r ffyrdd gorau o weld ein cefn gwlad eiconig a chael cyfle i ymlacio.

Mae modd cael mwy o fwynhad heb orfod poeni am draffig a pharcio – ac mae'n well ar gyfer yr amgylchedd hefyd. Dyma pam ein bod wedi gofyn i'r awdur teithio Julie Brominicks i greu'r teithiau cerdded hyn gyda'n gwasanaethau bws mewn golwg.


Maent wedi'u trefnu gyda'r daith fyrraf yn gyntaf, gyda map ar gyfer pob taith, ac mae disgrifiadau unigryw a nodweddiadol Julie yn cyd-fynd â phob un.

Mae'r teithiau cerdded yn datgelu rhai o'n tirluniau harddaf, gan gynnwys Tirlun Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen. Ond maent hefyd yn dechrau a gorffen ger safle bws, felly mae modd gadael y car gartref.



## Cwrdd â'r awdur

Roedd Julie Brominicks yn addysgu yn y Ganolfan ar gyfer Technoleg Amgen ger Machynlleth. Mae ei llyfr The Edge of Cymru, a gyhoeddwyd gan Seren Books, yn adrodd hanes ei thaith o amgylch Cymru mewn blwyddyn. Mae hi'n cyhoeddi erthyglau yng Nghylchgrawn Countryfile y BBC yn rheolaidd ac mae ganddi flog ar https://juliebrominicks.wordpress.com Mae'n byw oddi ar y grid, mewn carafán, mewn dyffryn tawel ger Machynlleth.


Map Sir Ddinbych
Denbighshire Map
Y RHYL
PRESTATYN
RHUDDLAN
LLANELWY
ST ASAPH
DINBYCH
DENBIGH
RHUTHUN
RUTHIN
CORWEN
LLANGOLLEN
SIR DDINBYCH
DENBIGHSHIRE
CONWY
GWYNEDD
POWYS
SIR Y FFLINT
FLINTSHIRE
WRECSAM
WREXHAM
BAE COLWYN
COLWYN BAY
ABERGELE
Llanddulas
Towyn
Llyn Morol
Marine Lake
Gallt Melyd
Meliden
Dyserth
Gronant
Talacre
Mostyn
Rhuallt
Bodelwyddan
Trefnant
Bodfari
Henllan
Llandyrnog
Pentre
Llanrhaeadr
Gellifor
Nantglyn
Rhewl
Llanbedr
Dyffryn Clwyd
Cyffylliog
Llanfwrog
Llanfair
Dyffryn Clwyd
Pwll Glas
Graigfechan
Clocaenog
Hiraethog
Clawdd Newydd
Llandegla
Llanarmon yn Iâl
Eryrys
Llanferres
Cadole
Parc Gwledig
Loggerheads
Country Park
Parc Gwledig
Moel Famau
Country Park
Rhydymwyn
Llyn Brenig
Llyn Bran
Cronfa
Alwen
Reservoir
Cerrigydrudion
Betws
Gwerfil Goch
Gwyddelwern
Bryneglwys
Clawdd Poncen
Carrog
Llidiart
Y Parc
Glyndyfrdwy
Cynwyd
Llandrillo
Y BALA
BALA
Glyn Ceiriog
Llanarmon
Dyffryn Ceiriog
Dyffryn Ceiriog Valley
Y Berwyn / Berwyn Range
Dyfrdwy / Dee
Dyffryn Llangollen
Vale of Llangollen
Dyffryn Clwyd
Vale of Clwyd
Bryniau Clwyd
Clwydian Range
Trefor
Trevor
Froncysyllte
Rhiwabon
Ruabon
Y WAUN
CHIRK
Mwynglawdd
Minera
YR WYDDGRUG
MOLD
Ewlo
Ewloe
Queensferry
Shotton
CEI CONNAH
CONNAH'S QUAY
Y FFLINT
FLINT
TREFFYNNON
HOLYWELL
Heswall
West Kirby
Hoylake
Wallasey
LERPWL
LIVERPOOL
PENBEDW
BIRKENHEAD
Mersey
Dyfrdwy / Dee
10 cilomedr / km
5 milltir / miles
Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa
Offa's Dyke Path National Trail
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path
Llwybr bws
Bus route
Rheilffordd
Railway
Rheilffordd treftadaeth
Heritage railway
Canolfan Groeso
Tourist Information
Traeth
Beach
Llyfrgell
Library
Sinema
Cinema
Theatr
Theatre
Gorsaf reilffordd y prif linell
Main line railway station
Canolfan Hamdden
Leisure Centre
Cyfadeilad Hamdden
Leisure Complex
Cwrs golff
Golf course
Amgueddfa
Museum
Sir Ddinbych
Denbighshire
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol
Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape
Parth byffer Safle Treftadaeth y Byd
Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas
Pontcysyllte Aqueduct and Canal World
Heritage Site buffer zone
Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Taith 1: Ffynnon Santes Tegla, Llandegla | 6 |
| Taith 2: Eglwys Gadeiriol Llanelwy | 10 |
| Taith 3: Moel Tŷ Uchaf, Llandrillo | 14 |
| Taith 4: Ywen Nantglyn | 18 |
| Taith 5: Colofn Eliseg, Llangollen | 22 |
| Taith 6: Coed Clocaenog | 26 |
| Taith 7: Pont Dyfrdwy, Corwen | 30 |
| Taith 8: Penycloddiau, ger Bodfari | 34 |
| Teithiau dydd eraill | 38 |
| Byddwch yn Anturiwr Craff | 40 |
| Dilynwch y Cod Cefn Gwlad | 41 |
| Llwybrau heb geir | 42 |


Roedd yr holl wybodaeth yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi. Ond mae pethau'n gallu newid. Er mwyn osgoi siom gwiriwch yr holl lwybrau bws ac unrhyw wybodaeth arall cyn teithio.


Cyhoeddwyd yn 2025 gan Dîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych.

Testun: Julie Brominicks.
Dyluniad: White Fox.
Delweddau: Billie Charity (llun o'r awdur), Fiona Dolben Evans, White Fox, Tîm Twristiaeth Cyngor Sir Ddinbych, Pexels.
Mapiau'r llwybrau: Mapping Company Ltd.

# Taith 1:
# Ffynnon Santes Tegla, Llandegla



Does dim modd anwybyddu'r teimlad. Mae'r daith gerdded addfwyn yn eich ymbaratoi, yn cylchdroi fel y mae ar hyd glannau'r Afon Alyn, ac i lawr lonydd sy'n troelli'n braf, gyda'r unig draffig yn feiciau cwad yn neidio i mewn i gae (ac ymosodiad o ddrywod). Yn y ffynnon mae teimlad o rywbeth distaw, a hynafol a sanctaidd.


Yn cael ei storio mewn trwch o ddrain, mae'r darn hwn o ddŵr yn dal adlewyrchiad y coed. Mae hi wedi disgleirio rhwng y cerrig am ganrifoedd; ei hadeiladu'n ofalus o amgylch tarddell yn llwyn y wernen. Fel yr eglwys yn y pentref, mae'r ffynnon wedi'i chysegru i Santes Tegla. Neu Tecla, neu Thecla.

Yn ôl Gwyddoniadur y Byd Newydd, roedd Tegla'n dilyn Sant Pedr, ac mae hyn yn cael ei grybwyll yn un o destunau'r Testament Newydd, lle nodir, bod ei hymroddiad wedi'i 'wobrwyo gan arwyddion gwyrthiol, gan gynnwys sawl achubiad dramatig rhag merthyrdod drwy dân a bwystfilod'. Roedd Tegla'n cael ei pharchu'n eang yn yr hen fyd, ac mae'n cael ei chydnabod heddiw gan yr eglwysi Catholig Rhufeinig a'r Uniongred Dwyreiniol. Felly sut wnaeth hi gyrraedd Cymru? Theori arall (safbwynt Tristan Gray Hulse) yw bod Tegla'n santes leol na wyddom unrhyw beth amdani erbyn hyn.

Mae gennym sawl disgrifiad o ganrifoedd mwy diweddar fodd bynnag bod y ffynnon yn gallu iachau epilepsi, ac er bod y cyfrifon yn amrywio, roedd rhai yn adrodd: Byddai'r unigolyn a oedd yn dioddef yn ymolchi yn y ffynnon, ac yn taflu pedwar ceiniog i mewn, ac yn cerdded o'i chwmpas dair gwaith gan gario iâr os oeddent yn ddynes, neu geiliog os oeddent yn ddyn, gan adrodd Gweddi'r Arglwydd. Yna fe

fyddant yn cerdded o amgylch yr eglwys dair gwaith cyn cysgu dan yr allor, gyda'r iâr anffodus a byddai'r afiechyd yn cael ei throsglwyddo i'r iâr (os byddai'n marw).

Nid yw'n wanwyn eto. Mae'r cacennau bach pinc ar y cownter, ac mae'r addurniadau ar nenfwd y caffi cymunedol yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen a San Ffolant ym mis Ionawr a Chwefror, yn hytrach na Santes Tegla. Mae'r caeau yn gorsydd cyntefig. Ond mae'r cynffonau oen bach yn siglo yn y gwynt a blagur tynn yn frith trwy'r gwrychoedd. Ac yma ger y ffynnon, er gwaethaf y brigau gwlyb a moch y coed llynedd, a sŵn yr adar ysglyfaethus yn cael eu saethu, mae egni yn yr awyr, a dail piws yn gwthio drwy'r pridd tywyll.



## Bws

Mae'r 51 a'r X51 rhwng Wrecsam a Dinbych yn stopio yn y Crown ar yr A525, ger Llandegla, gyda'r ffynnon wedi'i lleoli chwarter milltir o daith wedyn i mewn i'r pentref. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg oddeutu unwaith bob dwy awr o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru


Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.















1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Dyma gylchdaith addfwyn 3 milltir o hyd, sy'n mynd heibio eglwys Santes Tegla, ar hyd Afon Alyn ar Lwybr Clawdd Offa, gan ddychwelyd i'r pentref a Ffynnon Santes Tegla ar hyd ffyrdd gwledig tawel.**

Ar ddiwedd y gwanwyn mae dail ar y gwrychoedd, mae'r adar yn canu a'r blodau gwyllt yn blaguro. Mae'r lôn ym Mhlas Tyna i'r de o Landegla yn rhan o brosiect Gwarchodfeydd Natur Ymyl Ffordd Sir Ddinbych. Yma byddwch yn canfod cyfoeth o rywogaethau o blanhigion yn y gwrychoedd megis y mapgoll a'r clychlys mawr, planhigion y coetir megis mapgoll glan y dŵr, ac ymysg planhigion glaswelltir calchaidd, tegeirian porffor y gwanwyn a'r friallen Fair sawrus.

Gallwch gwtogi'r daith gerdded drwy gerdded yn syth am y ffynnon o'r safle bws – tua hanner milltir. Cofiwch ymweld â'r siop gymunedol braf a'r caffi gyferbyn â'r eglwys. Mae'r lonydd yn dawel ac yn boblogaidd ymysg cerddwyr lleol, ond cofiwch gymryd gofal wrth gerdded ar y ffordd.

1. O'r safle bws, dilynwch yr arwyddion i'r pentref, gan nodi'r Siop a'r Caffi Cymunedol gyferbyn â'r eglwys.

2. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer Llwybr Clawdd Offa gan fynd i gyfeiriad y gogledd o'r eglwys. Dilynwch y llwybr ar hyd Afon Alyn, nes cyrraedd pen y ffordd.

3. Trowch i'r chwith ar hyd y lôn, gan nodi sgarpiau ar eich chwith, a mwynhewch weithgarwch yr adar, nes cyrraedd croesffordd.

4. Trowch i'r chwith tuag at Landegla. Mae'r lôn yn droellog ac yn fryniog. Dyma le byddwch yn canfod blodau gwyllt ar ymyl y ffordd.

5. Wrth gyrraedd y bont gerrig i groesi Afon Alyn (lle byddwch yn gweld safle picnic cymunedol ar lannau'r afon) trowch i'r dde i mewn i'r cae, a dilyn arwyddion i'r ffynnon dros bont droed yn llwyn y wernen.

6. Parhewch drwy'r pentref i Eglwys Santes Tegla – sydd yn cynnwys cyfleusterau gwneud te ar gyfer cerddwyr. Yn y cyfamser, mae'r Siop Gymunedol gyferbyn â'r eglwys yn lle gwych i aros os oes gennych amser i'w sbario. O'r fan hyn dychwelwch i'r safle bws.



**Taith 2:**

# Eglwys Gadeiriol Llanelwy



Mae arogl sbeis yma ac mae naws clyd eglwysig i'w deimlo o'ch cwmpas – nid oes calchfaen bwaog agored yma. Yn lle hynny, ceir tywodfaen coch cynnes o liwiau'r hydref o liw bisged Malted Milk (carreg graen mân o'r Fflint neu Dalacre) i liw'r Bourbon sydd bron yn borffor, y cafodd eu cloddio dwy filltir yn unig o'r Eglwys Gaeiriol. Mae'r tawelwch yn eich taro. Mae'r canhwyllau'n fflachio ac mae golau cynnes yn dod o'r lampau uwchben canopi seddi'r côr. Mae'r eglwys gadeiriol yn heddychlon ar y cyfan erbyn hyn, ond nid yw bob amser wedi bod felly.

Mae'n dyddio o'r chweched ganrif ac mae'n gysylltiedig yn ôl y chwedl â'r seintiau Kentigern ac Asaph, a phren fyddai ei strwythurau cynnar. Cafodd y rhain eu hamnewid gan y Normaniaid (y cafodd eu goresgyniad ei fendithio gan y Pab), a daethant â dulliau adeiladu â cherrig a syniadau crefyddol gyda nhw. Ym 1120 gwnaethon nhw Lanelwy yn esgobaeth (dan ofal esgob) a'i hymgorffori, ynghyd â'r tair esgobaeth arall yng Nghymru, yn Archesgobaeth Caergaint, ac yn ddarostyngedig i'w hawdurdod. Cafodd y goresgyniad Normanaidd ei herio gan y Cymry. Daeth y Normaniaid yn Eingl-Normaniaid ac yn y pen draw, dros y canrifoedd, yr oedden nhw'n cyfeirio atynt eu hunain fel Saeson – yn union fel y daeth yr unigolion a ymgartrefodd yng Nghymru yn Gymry.

Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, weithiau nid oedd cynulleidfa yn yr eglwys gadeiriol gan fod cymaint o drais. Roedd Llanelwy yn ei chanol hi o ran y rhyfel. Brwydrodd Llywelyn ap Gruffudd yn erbyn ymgyrch Edward I i wladychu Cymru – ym 1282 ymosodwyd ar yr eglwys gadeiriol a'i

dinistrio gan filwyr o Gymru yn gyntaf ac yna gan filwyr o Loegr. Ym 1402, gwnaeth byddin Glyndŵr ei dinistrio. Ac yn ystod Rhyfeloedd Cartref yr ail ganrif ar bymtheg, gwnaeth gwŷr Cromwell falu'r ffenestri a rhoi dŵr i'r ceffylau o'r bedyddfaen. Gweithiwyd yn galed i sicrhau heddwch yn y man hwn ac ni ddylid ei gymryd yn ganiataol.

Mae'r Beibl a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan William Morgan (cyn-Esgob) a'i gydweithwyr, wedi'i gadw mewn cabinet wedi'i oleuo. Mae hysbysfyrddau, cadeiriau wedi'u stacio ac arddangosiadau â sgriniau cyffwrdd – yr holl annibendod mewn addoldy modern sy'n ei wneud yn gartrefol, yn ychwanegu at y croeso. Mae gantri yn cuddio'r allor. Ond tu ôl iddo, mae'r gwydr lliw yn disgleirio.

# Bws

Mae Llanelwy ar wasanaethau Arriva Cymru 51, 51b, 51s, 52 a M&H Coaches rhif 54, ac mae'r rhain i gyd yn rhedeg rhwng Dinbych a'r Rhyl. Mae gwasanaethau ar gael o leiaf ddwywaith bob awr yn ystod yr wythnos a bob awr ar ddydd Sul.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru

Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.





















1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae'r daith gerdded rhwydd hon tua 4.5 milltir o hyd. Mae un darn serth ond byr i fyny ffordd, ac un llwybr serth drwy gae.**

Mae'n dilyn llwybrau glan yr afon ar hyd Afon Elwy, yn ogystal â ffyrdd tawel, sy'n arddangos nodweddion hanesyddol a heddychlon Llanelwy, i ffwrdd o'r A525 a'r A55. Mae camfeydd i groesi'r caeau. Gall y lonydd coediog, y caeau a'r llwybrau ar hyd yr afon fod yn fwdlyd ar ôl glaw ond mae eu lliwiau hydrefol yn ogoneddus.

1. Pan fyddwch chi'n gadael yr eglwys gadeiriol, trowch i'r dde i Ffordd Dinbych a'i chroesi. Dilynwch yr arwyddion am Daith Clwyd ychydig cyn Ysgol Glan Clwyd. Cadwch ar y trac hwn sydd â choed ar ei hyd wrth iddo fynd heibio i gaeau chwarae'r ysgol.

2. Gadewch arwyddion Taith Clwyd a chadw at y lôn, trowch i'r dde wrth y gyffordd, ac i'r dde eto tuag at y tai newydd, yna i'r chwith i ddychwelyd i Ffordd Dinbych. Croeswch y ffordd a throi i'r dde.

3. Bron yn syth ar ôl hynny, dringwch dros y gamfa i'r caeau ar y chwith, a dilynwch yr arwyddion sy'n eich arwain chi i lawr yr allt ar hyd y caeau at Afon Elwy. Cadwch at lan yr afon, ewch heibio'r cae pêl-droed a chyrhaeddwch y bont ffordd.

4. Trowch i'r chwith a chroeswch y bont. Yna, croeswch y ffordd a throi i'r dde i ddychwelyd i lan yr afon. Cadwch at y trac amlwg – ond os ydych chi am gwtogi y taith gerdded, mae dwy bont droed yn mynd dros yr afon er mwyn dychwelyd i Lanelwy yn gynt.

5. Cymerwch y drydedd bont droed dros yr afon, a throwch i'r dde ar hyd trac y fferm. Parhewch wrth iddi newid i fod yn ffordd dawel, ac i fyny bachdro serth a byr. Croeswch y bont dros yr A55.

6. Parhewch i gerdded lawr Mount Road sy'n troi i'r dde i Lôn Derw, y mae'n ymuno â hi am ychydig cyn ail-ymuno â Mount Road. Bydd mynwent ar eich chwith.

7. Byddwch chi'n ymuno â'r A525 eto gyferbyn â'r eglwys gadeiriol. Mae Caffi'r Cyfieithwyr y tu ôl i'r eglwys gadeiriol, ac efallai y cewch chi eich temtio i fynd i gaffi Jacob's Ladder wrth gerdded heibio hefyd, lle mae'r croeso'r un mor gynnes.



**Taith 3:**

# Moel Tŷ Uchaf, Llandrillo



Cennog, llwynaidd a deiliog, pinc, gwyrdd ac aur – mae pob carreg wedi'i gorchuddio â chen cywrain. Mae'r gwynt wedi cusanu ac ymosod ar y cerrig hyn ers miloedd o flynyddoedd. Ac eto bedair mil o flynyddoedd yn ddiweddarach, maent yn dal i ffurfio cylch perffaith ar fryn rhwng mynyddoedd a dyffryn. Gwrandewch. Mae sŵn chwyrnu mecanyddol yn codi o fferm ac yna'n pylu. Gwrandewch rŵan. Dadl rhwng bwncath a brân. Gwrandewch eto – dim ond y gwynt. Hen sŵn.

Mae cylch Moel Tŷ Uchaf yn dyddio i'r Oes Efydd gynnar pan gyrhaeddodd pobloedd mewn cychod bach o'r cyfandir ac integreiddio gyda'r poblogaethau Neolithig presennol. Yn raddol bach, datblygodd dulliau newydd. Daeth bwyeill metel i gymryd lle'r rhai carreg. A disodlwyd yr hen arferiad o gladdu llawer o bobl mewn un beddrod gan yr arferiad o amlosgiadau – neu gladdedigaethau unigol i bobl bwysig. Fel yr un yma.

Gyda diamedr o un metr ar ddeg yn unig, mae'n debyg bod y pedwar deg un o gerrig hyn wedi'u pacio'n agos at ei gilydd i ffurfio sylfeini carnedd gron – tomen gladdu wedi'i gorchuddio ac yn cynnwys cist ar gyfer un corff. Mwynhaodd y bobl a'i hadeiladodd hinsawdd fwyn. Yn eu plith oedd gweithwyr lledr, crochenwyr, a seiri coed a oedd yn byw mewn cytiau ac yn tyfu cnydau o wenith, rhyg, ceirch, a haidd, ac yn gofalu am geffylau, gwartheg a moch. Ni fyddent wedi rhyfeddu llawer at y bara ceirch a'r caws yn fy mhicnic. Efallai bod merch wedi ymweld â'r beddrod hwn yn yr un ffordd ag yr es i, dridiau yn ôl, at fedd fy nhad. Er bod milenia wedi mynd heibio nid ydym mor wahanol.

Mae ffermydd y dyffryn bellach wedi'u hamgylchynu gan gaeau da byw. Nid oes eirth na bleiddiaid yn byw yn y coed mwyach, mae'r dirwedd bellach wedi'i datgoedwigo i raddau helaeth, heblaw

am y planhigfeydd sbriws ag ymylon syth. Mae'r ffensys a'r waliau yn syth hefyd. Nid felly'r cerrig cromliniol, sy'n gydnaws â'r copaon a'r llethrau. Cylch o fynyddoedd yw'r gorwel – Yr Arenigau, Yr Aran, Y Carneddau, Y Berwyn – lympiau a chopaon sy'n ailadrodd siapiau'r cerrig. Ac uwch eu pen mae cylch o gymylau.



## Bws


Mae Llandrillo'n cael ei wasanaethu gan Fws T3c. Peidiwch â drysu rhyngddo a gwasanaeth y T3 sy'n rhedeg rhwng Y Bermo a Wrecsam, mae'r T3c yn amrywiad lleol rhwng Dolgellau a Chorwen.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru


Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.












© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae'r gylchdaith o 5 milltir o Landrillo yn weddol galed dros fryniau corsiog. Mae angen sgiliau darllen map sylfaenol. Dewiswch ddiwrnod clir – gall cymylau ddisgyn.**

Ar ddiwrnod braf o hydref, mae'r rhostir, y coed a'r rhedyn yn darparu paled copr cochlyd a melyngoch, ac mae'r distawrwydd yn euraidd.

1 Gyferbyn â'r safle bws dilynwch y cyfeirbwyntiau ar hyd y llwybr wrth ymyl y ganolfan gymunedol ac ar draws y cae i'r lôn. Trowch i'r dde ac ewch heibio Llechwedd.

2 Wrth y cyfeirbwynt ewch ar hyd y llwybr canolog gan fynd i fyny'r allt drwy'r goedwig gonwydd sydd â choed collddail ar yr ymylon. Daliwch i gerdded ar hyd y trac hwn, nes i chi ddod allan o'r coed.

3 Ewch ymlaen drwy'r giât ar y dde, gan barhau ar hyd y trac sy'n ymylu ag ochr y bryn nes i chi ddod at giât arall sy'n mynd â chi i rostir Gwarchodfa Natur Genedlaethol Y Berwyn. O'ch blaen fe welwch fynyddoedd Cadair Bronwen, Cadair Berwyn a Moel Sych.

4 Trowch yn syth i'r chwith, gan gadw at y ffens, ar hyd trac y fferm sy'n nodedig ond heb ei arwyddo. Dilynwch y llwybr wrth iddo wyro oddi wrth y ffens i gyfeiriad dwyreiniol yn gyffredinol gan anelu at y ddau fryn isaf ar ddiwedd y grib a rhyngddynt. Fe ddowch at ffens arall.

5 Trowch i'r dde a dilynwch y trac yn syth i fyny'r allt ar hyd ymyl y ffens i ben Moel Pearce. Ewch drwy'r giât ac yna trowch yn syth ac ewch yn ôl i lawr y rhiw drwy'r giât ar ochr arall y wal.

6 Dilynwch y llwybr i lawr yr allt wrth iddo wyro i gyfeiriad y gogledd-orllewin tuag at gornel y blanhigfa goniferaidd. Cyn bo hir fe welwch gylch cerrig Moel Tŷ Uchaf ar lwyfandir o'ch blaen.

7 Ewch oddi ar y llwybr i'w gyrraedd.

8 Dychwelwch i'r llwybr a dilynwch gyfeirbwyntiau Taith Tegid yn ôl i Landrillo, ar hyd llwybr hardd o dan goed derw sy'n fframio golygfeydd o'r pentref.



**Taith 4:**

# Ywen Nantglyn



Uwch fy mhen, mae gwibiadau adenydd rhwng canghennau bytholwyrdd sy'n hidlo golau'r haul fel y mae ffenestri lliw yn ei wneud. Chwiban dryw eurben a chlebran titw. Rwyf ddau fetr oddi ar y ddaear yn y goeden ond mae'r adar yn dal i fod mor bell uwch fy mhen yn y goron ac rwy'n hollol amherthnasol iddyn nhw.

Gyda boncyff sydd â chwmpas dros saith metr a choron drwchus, mae Ywen Nantglyn yn gawr sy'n ffynnu ar dir eglwys Sant Iago ac sy'n gwneud i'r eglwys ymddangos yn fechan wrth ei hochr, ond dim ond o bosibl y mae'n ei rhagddyddio, er mor fawr yw'r demtasiwn i ragdybio hynny. Mae'r arfer o addoli coed cysegredig yn hŷn na Christnogaeth, ac ymddengys y gallai'r eglwysi cyntaf fod wedi cael eu hadeiladu ar safleoedd addoli Paganaidd cynharach, ond mae'n anodd dyddio coed ywen. Yn ei lyfr rhagorol 'Trees of the Celtic Saints; The Ancient Yews of Wales', mae Andrew Morton yn esbonio bod y pren rhuddin yn pydru gan ei gwneud yn amhosibl cynnal profion carbon a dendrocronoleg, tra bod y twf anhrefnus nodweddiadol yn ei gwneud yn anodd mesur cwmpas y boncyff hyd yn oed.

Mae blynyddoedd lawer ers i'r rhuddin bydru o'r ywen hon, ond ar ryw adeg gosodwyd grisiau llechi a darllenfa yn gelfydd yn y boncyff gwag er mwyn, yn ôl y chwedl, caniatáu i'r arweinydd Methodistaidd John Wesley bregethu o'r goeden ym 1790. Os ydych yn ddigon ystwyth gallwch dynnu eich hun i fyny i 'Ywen y Pulpud' gan ddefnyddio'r canllaw, a mynd i mewn i galon y goeden.

Felly yma yn y galon rwy'n eistedd. Clywaf glebran colomennod, ac anadlaf yr arogl bytholwyrdd. Cyffwrdd â'r rhisgl llyfn rhosynnaidd a'r pennau banadl bach o dyfiant trwchus. Mae sawl coesyn

aeddfed yn byrstio'n syth o'r boncyff - dwi'n cyfri o leiaf saith. Maen nhw'n gwneud i mi deimlo fel pe bawn mewn coedwig. Mae'r bylchau rhyngddynt yn datgelu golygfeydd wedi'u gorchuddio gan ganghennau bytholwyrdd; slabiau o fwsogl ar do llechi'r eglwys, y cae bryniog hir a'i gloddiau. Y ddaear lle mae tomwellt o nodwyddau yn gwneud lle i laswellt mwsoglyd, beddau a fioledau. Mae'r portreadau gwyrddlas hyn, cân y nant a'r persawr yn cynllwynio i'm drysu. Pa mor hir ydw i wedi eistedd yn yr eglwys hon o adar? A dyna pryd mae'n fy nharo i – anferthedd amser. Rwyf wedi rhoi efallai awr o fy amser i'r goeden hon sydd wedi byw, cynnal a chysgodi yma ers canrifoedd.



## Bws

Mae gwasanaethau bws yn rhedeg yn rheolaidd i Ddinbych o bob rhan o'r sir. Mae gwasanaeth 14 P&O Lloyd yn rhedeg rhwng Dinbych a'r Wyddgrug. Mae gwasanaeth 76 M&H yn rhedeg rhwng Dinbych a Rhuthun. Mae gwasanaeth 51 Arriva yn rhedeg rhwng y Rhyl a Dinbych. Sylwch fod gwasanaeth 76L (drwy Landyrnog) yn codi a gollwng teithwyr y tu allan i Eglwys St Marchell, tra bo modd dal gwasanaethau bws 76 eraill ryw ddwy funud i ffwrdd ar droed.

Gallwch gyrraedd Nantglyn o Ddinbych ar fws Fflecsi 77 – argymhellir eich bod yn archebu eich taith rhwng wythnos a diwrnod ymlaen llaw drwy lawrlwytho'r ap o fflecsi.wales neu ffonio 0300 234 0300.


I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.


I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru

Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.










1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae hon yn daith gerdded linellol 7 milltir o hyd. Mae'n ddeiliog yn y gwanwyn ac yn cysylltu llwybrau ag arwyddbyst ar draws cefn gwlad agored gyda chamfeydd, lonydd a chaeau a all fod yn fwdlyd ac mae rhan fer ohoni yn mynd ar hyd y ffordd.**

Mae ywen ac eglwys ôl-ganoloesol Sant Iago, lle mae'r ywen yn tyfu yn ei mynwent, ar safle heddychlon ym mhentref bychan Nantglyn lle mae nant soniarus yn llifo drwyddo.

Rwy'n argymell archebu bws Fflecsi o Ddinbych i Nantglyn a cherdded yn ôl. Dylai hynny roi digon o amser i chi hefyd ymweld ag Eglwys St Marchell ar Ffordd Rhuthun (sydd â choed ywen hefyd) lle mae awyrgylch heddychlon, ac sydd ar agor yn ystod golau dydd.

1. O giât yr eglwys trowch i'r dde, yna i'r chwith wrth y groesffordd a thros y bont. Parhewch ar y ffordd gan fynd heibio i'r coed ar y chwith, yna dilynwch yr arwydd llwybr ceffyl i'r chwith.

2. Cadwch ar y llwybr ceffyl, gan groesi nant i ochr y bryn ac o dan y goedlan dderw. Dilynwch y llwybr rhwng cloddiau a choed sy'n sefyll i fyny'r allt at lôn.

3. Trowch i'r chwith i'r lôn o dan Foel Gesych ac yna bron yn syth i'r chwith i Gilffordd Clifford.

4. Dilynwch y gilffordd i lawr yr allt, ar ddarn gwyrdd o lôn, yna gadewch hi i droi i'r dde i lôn werdd rhwng coed. Bydd yn mynd â chi i lawr heibio tŷ i lôn arall – dilynwch y lôn i'r ffordd.

5. Trowch i'r dde ar y ffordd, sy'n mynd i fyny allt fechan. Ychydig yn nes ymlaen chwiliwch am arwyddion llwybr troed i'r chwith. Dilynwch y cyfeirbwyntiau sy'n eich arwain i lawr caeau, yna i'r dde ar hyd nant y byddwch yn ei chroesi ar y bont – gan osgoi'r twll!

6. Daliwch i ddilyn yr arwyddion â chyfeirbwyntiau ar draws y caeau, gan gadw glannau coediog y nentydd i lawr i'r dde oddi wrthych.

7. Yn y pen draw mae'r cyfeirbwyntiau yn eich arwain i mewn i'r coed ac ar hyd ymyl y nant. Rydych nawr ar dir preifat, mae'r llwybr ychydig yn llithrig ond mae wedi'i nodi'n dda gan arwyddion ar goed. Pan ddowch at y bont droed newydd peidiwch â'i chroesi. Cadwch ar lan chwith y nant, gan ddilyn yr arwyddion i'r coetir ac yna i fyny'r cae i'r chwith ar hyd y ffens i ymuno â'r trac.

8. Trowch i'r dde i'r trac a'i ddilyn o amgylch y chwarel a gardd furiog y tŷ preifat.

9. Daliwch i ddilyn y llwybrau â chyfeirbwyntiau ar hyd y caeau nes iddo ymuno â Thaith Clwyd.

Gallwch dorri allan i Ddinbych yn gynt os ydych yn brin o amser. Fel arall cadwch at Daith Clwyd sydd wedi'i nodi'n dda ar draws caeau i'r de o Ddinbych, nes cyrraedd Fferm Brwcws. Oddi yma cymerwch y llwybr i'r gogledd ac ar draws y ffordd i Eglwys St Marchell gyda'i choed yw – a mwynhewch yr heddwch.

# Taith 5:
# Colofn Eliseg



*Concenn itaque pronepos Eliseg edificauit hunc lapidem…* ac felly Concenn, gor-ŵyr Eliseg, a adeiladodd y garreg hon.

Er y Lladin nodedig, mae Colofn Eliseg yn edrych ychydig yn swil erbyn hyn, yn ddiogel y tu cefn i'r ffens bolion haearn ar garnedd o'r Oes Efydd sydd yna wedi'i amgylchynu gan ffens mewn cae defaid. Os wnewch chi syllu'n ofalus mae modd gweld Abaty Glyn y Groes y tu draw i'r safle carafanau, ond mae'r arwyddion yn hysbysebu cinio dydd Sul yng Ngwesty Abbey Grange yn fwy amlwg ar draws yr A542 lle y gwelir traffig parhaus.

Mae'r deg ar hugain o linellau o Ladin wedi erydu. Yn ffodus bu i hynafiaethwyr fel Edward Lhuyd gopïo'r testun ym 1696, a bu i'r awdur teithio Thomas Pennant ysgrifennu amdano ganrif yn ddiweddarach.

Rydym yn gwybod mai Colofn Eliseg yw'r oll sy'n weddill o garreg goffa a oedd yn llawer mwy a osodwyd gan Cyngen (arweinydd lleol) yn y nawfed ganrif er cof am ei hen daid Eliseg, a drechodd yr Eingl-Sacsoniaid mewn brwydr a'u hel o'r rhan yma o Bowys. Efallai mai propaganda oedd bwriad yr arysgrifau, i godi ysbryd, neu i'w darllen yn uchel pan benodwyd arweinwyr.

Mae'r hen golofn wedi wynebu sawl trychineb. Cafodd ei dymchwel, yn ôl yr hanes, gan ddelwddryllwyr Cromwell yn y 1640au, a bu iddynt dorri'r groes oddi ar y golofn. Er yr ail-osodwyd y golofn a ddifrodwyd (yn dilyn ymweliad Pennant) gan berchennog tir yn y ddeunawfed ganrif ar ben y garnedd o'r Oes Efydd, nid oes modd anwybyddu'r ffaith ei fod yn edrych fwy fel ffalws erbyn hyn.

Mae'r daith gerdded aeafol yma yn adfer urddas y golofn. O ddyfroedd byrlymus Afon Dyfrdwy, fe ddringais i fyny a thros Gastell Dinas Brân (strwythur cynharach y mae'n debyg y bu Eliseg yn byw ynddo), o dan Greigiau Eglwyseg – y clogwyni sy'n amgylchynu'r dyffryn gyda chalchfaen, ac o amgylch Foel Fawr. Heb dwristiaid a deiliach yr haf, mae'r creigiau'n amlwg yn y tirlun, gyda Cholofn Eliseg yng nghanol y cyfan.





# Bws

Mae Llangollen yn brif gyrchfan ar gyfer gwasanaeth T3 Traws Cymru sy'n rhedeg rhwng Y Bermo a Wrecsam sawl gwaith mewn diwrnod, saith diwrnod yr wythnos. Mae gwasanaeth 192 Cyngor Sir Ddinbych o Felin-y-Wig drwy Gorwen yn mynd i Langollen hefyd, ddwywaith y dydd i'r ddau gyfeiriad, ddydd Llun i ddydd Gwener. A gwasanaeth 64 Dyffryn Tanat o Lanarmon Dyffryn Ceiriog drwy ardal Glyn Ceiriog, y Waun a Froncysyllte, sy'n teithio chwe gwaith y dydd, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru


Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.










1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae'r daith gylchol 7 milltir o hyd yn cynnwys rhywfaint o gerdded ar y ffordd ac yn cynnwys camfeydd gydag un darn serth i fyny ac i lawr yng Nghastell Dinas Brân.**

Yn hyfryd ar ddiwrnod gaeafol oer, er bod Abaty Glyn y Groes ar gau yn ystod y gaeaf, ac yn dawel o gymharu â'r haf, pan fydd Llangollen yn brysur iawn. Ond gorau oll, mae'r gaeaf yn golygu bod sogieir a chochion yr adain yn y coed drain sy'n glynu ar sgri Creigiau Eglwyseg wrth iddynt fwynhau'r aeron sy'n tyfu yno.

1. O'r safle bws, ewch am y bont. Fe fydd dyfroedd byrlymus Afon Dyfrdwy oddi tanoch yn dwyn eich sylw am gyfnod. Croeswch y ffordd a dilyn yr arwyddion i Gastell Dinas Brân.

2. Os ydych am osgoi'r darn serth, dilynwch y llwybr o amgylch gwaelod y bryn i'r chwith. Fel arall, dringwch i fyny at adfeilion anhygoel y castell o'r drydedd ganrif ar ddeg, a adeiladwyd ar gyfer tywysogion gogledd Powys.

3. Ymunwch â Llwybr Clawdd Offa ar ffordd dawel o dan Greigiau Eglwyseg. Fel mae'n digwydd, Offa oedd yr un a frwydrodd yn erbyn Eliseg. Dyma dirlun trawiadol. Sylwer ar sgarp calchfaen sy'n dringo uwchben a haid o sogieir a chochion yr adain yn y coed drain.

4. Gadewch Lwybr Clawdd Offa a dilyn y ffordd tua'r gogledd-orllewin i'r dyffryn. Ewch heibio hysbysfwrdd Eliseg.

5. Yna ewch i'r chwith ar lwybr Taith Clwyd a dilyn nant i'r coed. Croeswch y nant ar y bont droed a thros y caeau nes bo llwybr Taith Clwyd yn cyrraedd y ffordd. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde, yn parhau i ddilyn yr arwyddion ar gyfer Abaty Glyn y Groes.

6. Ar ôl y goedwig goniffer o dan yr hen goed derw, dringwch y gamfa fetel yn y ffens a dilyn y llethr i lawr i groesi Afon Eglwyseg ar bont droed i'r dde o'r safle carafanau. Dilynwch y lôn â gwrychoedd nes i chi gyrraedd y brifffordd. Mae modd gweld Colofn Eliseg yn y cae ar y dde.

7. Wrth gyrraedd yr A542 trowch i'r dde a byddwch yn ofalus wrth ddilyn y ffordd am bellter byr i gyrraedd Colofn Eliseg. Pan fyddwch yn barod, ewch yn ôl yr un ffordd i gyrraedd Taith Clwyd. Sylwer nad yw Abaty Glyn y Groes sydd islaw'r coed ar y dde ar agor yn y gaeaf.

8. Pan fydd llwybr Taith Clwyd yn cyrraedd y ffordd, trowch i'r dde i'r gamlas a dilyn llwybr y gamlas yn ôl i Langollen. Os oes gennych chi amser sbâr cyn dal y bws, mae Llangollen yn llawn lleoedd diddorol a chaffis hyfryd. Mae gan y Corn Mill ddecin sy'n edrych i lawr dros Afon Dyfrdwy.



# Taith 6:
# Coed Clocaenog



Yn sydyn – distawrwydd di-dor. Arogl nodwyddau a mwsogl yn dew, a'r awel ysgfan yn cusanu croen gwlyb. O'r man hwn – y pwynt uchaf yng Nghoed Clocaenog – yng ngorllewin y sir, mae golygfeydd syfrdanol ar draws Dyffryn Clwyd at lle mae Bryniau Clwyd yn codi yn y dwyrain yn dwmpathau mawr, brith.

Rydw i'n gorffwys yn erbyn cofeb Pincyn Llys a gafodd ei chodi ym 1830, nid i frolio am frwydr, ond yn hytrach, i ddathlu plannu coedwig goniffer. Torrwyd y coed cyntaf hynny'n byst a thrawstiau i'r ffosydd a phyllau glo yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cyn ailblannu'r goedwig wedyn. Mae newid defnydd o dir yn aml yn achos gofid calon, a hynny'n wir am y coedwigoedd coniffer cynnar – pan oedd cartrefi a ffermydd yn cael eu meddiannu gan y Comisiwn Coedwigaeth. Collwyd gwlypdir a rhostir.

Yn y cyfamser, cafodd gwahanol gynefinoedd eu creu ac un mamal sydd wedi elwa o Goed Clocaenog yw'r wiwer goch. Symudodd y gwiwerod coch i mewn yn ystod y 1950au i fwydo ar hadau'r coed sbriws Sitca. Mae'r boblogaeth wedi goroesi yno, wedi'i gwarchod yn rhannol rhag gwiwerod llwyd (sy'n cario brech nad oes gan y cochion imiwnedd rhagddi) gan uchder a lleoliad ynysig Coed Clocaenog, wedi'u hamgylchynu i raddau helaeth gan dir a maeth a rhosydd. Gallai poblogaeth gynyddol o felaod y coed, un o ysglyfaethwyr y gwiwerod llwyd sy'n bwyta ar y ddaear ond sy'n gweld y gwiwerod coch yn rhy sionc i'w dal, fod o gymorth. Amser a ddengys.

Rydych chi'n annhebygol o weld unrhyw wiwerod coch ar y daith hon. Er mor heddychlon yw lleoliad y gofeb (drwy

gerdded ar hyd y lonydd tawel a Choed y Fron Wyllt byddwch yn fwy na thebyg ddim â chwrdd a neb arall), dim ond crafu ymyl coedwig eang sy'n ymestyn ymhell i'r gorllewin ydych chi. Mae'r gwiwerod yn cuddio oddi mewn iddi. Ond mae'n braf gwybod nad ydyn nhw'n rhy bell.





# Bws

Er mwyn cyrraedd pentref Clocaenog, mae angen i chi archebu'r bws Fflecsi o Ruthun ymlaen llaw. Mae ar gael ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 2.30pm felly cadwch y daith hon at ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Lawrlwythwch yr ap oddi ar wefan Trafnidiaeth Cymru (www.trc.cymru/fflecsi) neu ffonio 03002 340300 i archebu. Mae Rhuthun yn cael ei gwasanaethu gan yr X51 o Ddinbych a'r T8 sy'n rhedeg rhwng Caer a Chorwen.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.


I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru

Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.








© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae hon yn daith gerdded wych yn yr haf os ydych chi am ddianc rhag yr arfordir prysur a chwilio am gysgod dan y coed – ond gwell peidio â'i dewis mewn tywydd poeth iawn gan fod ambell lôn agored a dringfa serth arni. Mae'n daith 8 milltir o amgylch dau goetir gwahanol; hen goetir hynafol Coed y Fron Wyllt a'r goedwig goniffer wrth gofeb Pincyn Llys.**

Mae'r ddau yn rhan o goedwig ehangach Goed Clocaenog, a fydd yn y pen draw yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol i Gymru. Os ydych chi eisiau haneru'r daith, mae'r bws Fflecsi hefyd yn gwasanaethu Bontuchel ar gyrion Coed y Fron Wyllt. Mae'r ddau goetir wedi'u cysylltu gan lonydd tawel Sir Ddinbych.

1. Dewch oddi ar y bws Fflecsi yn safle bws pentref Clocaenog a dilynwch y lôn sydd ag arwydd am Fontuchel, gan fynd heibio i'r ysgol a chadw i'r dde ger yr eglwys. Lle mae'r nant yn llifo dan y ffordd, ewch heibio'r tŷ o'r enw Sŵn yr Afon a throi i'r dde ar hyd y lôn sy'n mynd gydag ymyl Coed Cooper.

2. Yna, gadael y coed y tu ôl ichi wrth ddal i ddilyn y lôn a mynd heibio i'r fferm ar y chwith cyn troi i'r chwith wrth y gyffordd. Trowch i'r chwith eto pan mae'r ffordd yn fforchio, gan fynd heibio i Pengalltegfa. Arhoswch ar y ffordd, gan ddilyn arwyddion am Tyddyn Cook.

3. Ar ôl pasio Tyddyn Cook, dilynwch arwyddion am y Gilffordd sy'n eich arwain i Goed y Fron Wyllt. Mae rhan helaeth o'r coed yn goetir hynafol, sy'n drwch o gân yr adar bach a llystyfiant o bob math. Os oes gennych amser a'ch bod eisiau gweld pentref Bontuchel, daliwch i fynd drwy'r coed ac allan ohonynt.

4. Fel arall, trowch i'r chwith a dilyn arwyddion y llwybr. Mae hwn yn goetir mor braf, oni bai bod amser yn brin, mae hi werth dilyn y daith gylchol a'r arwyddion sy'n mynd gyda'r nant. Fel arall, ewch yn syth am y maes parcio.

5. Wrth adael y coetir, dilynwch lwybr Taith Clwyd i fyny lonydd gwledig tawel, serth yr holl ffordd at ymyl Coed Clocaenog, lle gwelwch chi arwyddion am y maes parcio.

6. Dilynwch yr arwyddion at Gofeb Pincyn Llys, a mwynhewch y golygfeydd godidog. Sylwch eich bod chi bellach wedi gadael llwybr Taith Clwyd ac wedi ymuno â Llwybr Hiraethog.

7. Dewch i lawr yn igam-ogam drwy'r coed coniffer ar Lwybr Hiraethog, a chadw ar y llwybr hwn wrth iddo adael y goedwig a dod â chi'n ôl i bentref Clocaenog.



# Taith 7:
# Pont Dyfrdwy



Yn adlewyrchu golau'r haul fel lliwiau peint o gwrw ond gyda sŵn gwin yn cael ei dywallt o botel (a hefyd fel tŷ golchi gyda'r peiriannau wrth eu gwaith), dyma'r Afon Dyfrdwy yn llifo o dan y bont. Mae'r afon fel cyhyr, yn ymestyn ac ystwytho, yn ffurfio diemwntau ar yr wyneb sy'n adlewyrchu siâp y pileri wrth iddi ruthro o dan y bont.

O'i tharddiad yn Eryri, drwy Lyn Tegid, i'r aber hallt ar arfordir y gogledd, mae Afon Dyfrdwy yn Ardal Gadwraeth Arbennig ac yn gydymaith rheolaidd yn Sir Ddinbych. Ar y daith rhwng Corwen a Chynwyd, mae'n byrlymu'n gyflym a chlir dros wely o gerrig. Mae'r canghennau'n colli eu brigau ynddi, fel bysedd chwaraewr pêl-droed wrth iddo daro ei ddwylo yn erbyn dwylo'r cefnogwyr wrth redeg o amgylch y cae. Mae cân yr adar yn y coed helyg, ynn a derw ar y glannau.

Mae prosiect cadwraeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru (LIFE Afon Dyfrdwy) wrthi'n ceisio adfer iechyd Afon Dyfrdwy. Mae'r mesurau'n cynnwys plannu coed ar ei glannau, ail-lenwi'r afon gyda chregyn gleision perl dŵr ffres a thynnu coredau er mwyn creu llwybr hawdd ar gyfer pysgod fel eog, sewiniaid, llysywod, penllwydion a thair rhywogaeth o lamprai – y môr, yr afon a'r nant. Ar hyd y darn yma rhwng Corwen a Chynwyd, gosodwyd ffensys da byw er mwyn lleihau'r maetholion a'r gwaddodion sy'n mynd i'r dŵr ac yn ei halogi a'i gymylu.

Rwy'n mwynhau gwylio'r afon o'r cilfannau i gerddwyr ar y pontydd, yn enwedig o Bont Dyfrdwy yng Nghynwyd. Mae'n debyg yr adeiladwyd y bont yn y ddeunawfed ganrif, neu efallai cyn hynny – mae rhai yn credu mai dyma'r un y disgrifiodd yr hynafiaethydd Edward Lhuyd ar ddiwedd

yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'r cerrig yn cuddio grotos bach; cynefinoedd micro ar gyfer pryfaid cop, morgrug a bryoffytau. Rwy'n credu fy mod yn edrych ar graig ac yna'n sylweddoli mai haen o gen llwyd ydyw. Fel coedwigoedd cymylau bychain, mae pennau hadau mwsogl yn dal gwlith y bore ac anwedd dŵr o'r afon fywiog islaw.






## Bws

Mae Corwen yn ganolbwynt ar gyfer bysiau. Mae'r T3 sy'n teithio pellteroedd maith rhwng Y Bermo a Wrecsam yn galw bob dwy awr. (Mae'r bws T3c yn teithio drwy Lanuwchllyn, Llandderfel, Llandrillo a Chynwyd). Mae modd cyrraedd Corwen ar wasanaethau rheolaidd rhif 76 o Ruthun, o Fangor ar wasanaeth T10 ac o Gaer ar wasanaeth T8.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru


Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.












Efallai y bydd llwybr glan yr afon sy'n dechrau ym mhwynt 2 ar gau ar gyfer gwelliannau yn ystod 2025. Cymerwch ofal a dilynwch unrhyw arwyddion gwyro.

1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Mae'r daith gylchol 8 milltir yn braf yn yr haf pan fyddwch yn chwilio am gysgod y coed a phresenoldeb y dŵr.  Er ei bod yn daith hawdd, mae'n cynnwys ambell gamfa - ac mae un ohonynt wedi torri ac yn golygu dringo rhywfaint!**

Mae'r daith yn mynd â chi i gyfeiriad y de o brysurdeb Corwen i dawelwch Cynwyd ar hyd glannau dwyreiniol Afon Dyfrdwy ac yn dychwelyd i Gorwen ar y glannau gorllewinol. Er mwyn cwtogi'r daith ychydig, mewn tywydd sych ac os yw'r afon yn ddigon isel, mae modd croesi'r rhyd yn hytrach na mynd drwy Fferm Rhug. Mae'r daith yn y coed yn bennaf ac mae llefydd i gael lluniaeth yng Nghorwen, Cynwyd a Siop a Chaffi Fferm Organig Rhug. Os ydych chi'n cynllunio ymlaen llaw mae modd ymweld â thair eglwys fawreddog. Mae eglwys Seintiau Mael a Sulien yng Nghorwen ar agor yn ddyddiol. Mae Hen Eglwys y Plwyf yn Llangar gyda darluniau canoloesol ar agor o bryd i'w gilydd ac mae angen gwneud trefniadau ymlaen llaw i ymweld â Chapel y Rug ychydig oddi ar y llwybr (y ddau dan ofal www.cadw.llyw.cymru). Cymrwch eich amser a mwynhewch ddiod, neu bicnic, a mwynhau'r afon.

1. O'r orsaf fysiau, ewch tua'r gorllewin drwy ganol Corwen.

2. Yn lle croesi Pont Corwen, gadewch y ffordd ond arhoswch ar lwybr Taith Clwyd sy'n parhau at gyrion y dref dros gamfa i ddilyn hen lwybr y rheilffordd.

3. Hyd yn oed os nad yw eglwys Llangar ar agor, mae modd ymweld â'r fynwent. Dywed bod yr enw yn deillio o Llan Garw Gwyn – eglwys y carw gwyn, a adeiladwyd lle y gwelwyd carw o'r fath yn neidio o'r dryslwyn.

4. Parhewch ar hyd y llwybr sy'n dilyn hen Reilffordd y Great Western rhwng Rhiwabon a'r Bermo nes i chi gyrraedd pentref Cynwyd, gan groesi Pont Dyfrdwy.

5. Ar ôl croesi'r bont, dringwch i lawr i ddilyn y llwybr ar y glannau gorllewinol, gan gadw'n agos at y dŵr. Dringwch dros neu drwy'r gamfa sydd wedi torri.

6. Ewch at y coed ar y chwith lle y gallwch weld giât fferm Gwerclas. Yma mae modd dilyn trac y fferm sy'n arwain at lôn y gellir ei dilyn at yr A5 yn Rhug….

7. Neu, mewn tywydd hynod o sych, mae modd dilyn y troad cyntaf i'r dde a mynd heibio tŷ Hafod-y-calch i lawr i'r rhyd. Croeswch y rhyd, parhau ar hyd y lôn, ac yna troi i'r dde i lwybr Taith Clwyd.

8. Os nad ydych wedi croesi'r rhyd arhoswch ar y lôn dawel i Bont Melin Rhug, ac yna wrth gyrraedd yr A5 arhoswch o fewn ffiniau Siop a Chaffi Fferm Organig Rhug. Dilynwch y llwybr ag arwyddion drwy'r fferm, gan fynd heibio siediau a chychod gwenyn, ac ymuno â llwybr Taith Clwyd.

9. Os ydych chi wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw i ymweld â Chapel y Rug trowch i'r chwith pan ddaw'r trac at drac arall.

10. Fel arall, cadwch at lwybr Taith Clwyd. Wrth gyrraedd Pont Corwen croeswch y ffordd a pharhau ar hyd llwybr Taith Clwyd wrth iddo ddilyn glannau'r afon. Mae rhan olaf y daith yn eich tywys rhwng hen ffensys llechi a'r afon. Cadwch olwg am ranunculus (crafanc y dŵr) yn blodeuo yn yr afon yma, ar ddechrau'r haf.

11. Yn olaf, dilynwch lwybr Taith Clwyd wrth iddi ymuno â'r ffordd, yna croeswch yr afon ger Pont Lôn Las, a dychwelyd i orsaf fysiau Corwen.

# **Taith 8:**
# Penycloddiau



O orwedd mewn pant fe allwch chi osgoi sgrech y gwynt, ond does dim dianc rhag yr awyr. Beth yw'r gromen las drawiadol hon? Alla' i ddim bwrw'r teimlad o fod mewn glôb eira. Pa bynnag dywydd sy'n eich cymell, eich anwesu neu'n eich erlid yma, mae Penycloddiau – â'i gopa 440m o uchder yn ymgodi uwch y dyffryn, ond eto'n sefyll ar wahân i'r cribau gerllaw – yn meddu ar olygfeydd dirwystr ac awyr sy'n goruchafu.

Gyda golygfan fel hyn, does ryfedd fod Bryniau Clwyd – y gefnen gnapiog o fryniau sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de i lawr ochr ddwyreiniol Sir Ddinbych – yn gartref i bedair bryngaer yn Oes yr Haearn, yn ogystal â Moel y Gaer ym Modfari a Moel Hiraddug gerllaw. Fe allwch chi ymweld â nhw i gyd ar un daith gerdded, ond rydw i wedi dewis gwneud dwy; Moel Arthur â'i ffurf bowlennog a Phenycloddiau, sef un o'r mwyaf yng Nghymru, yn mesur 18.9 hectar.

Yn fy mhant clyd, rydw i'n ceisio dychmygu sut le oedd yma yn Oes yr Haearn. Y rhagfuriau wedi'u hail-orchuddio â phren, a phobl yn mynd a dod ymysg y tai crynion y mae eu holion bellach yn ysbrydion sydd ond i'w gweld o'r awyr mewn tywydd sych. Dychmygu arogl yr anifeiliaid a'r mwg yn sleifio drwy'r toeau gwellt, y lleisiau a thincian yr offer. Ydw! Rydw i'n clywed lleisiau. Pedwar cerddwr o Swydd Stafford sy'n fy annog i allan o'r pant i dynnu llun ohonyn nhw. "Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n byw i fyny yn fan 'ma mewn gwirionedd" meddai un, pan ddyweda' i wrtho beth oeddwn i'n ei wneud. "Fe fyddai wedi bod yn daith hir i nôl coed tân" meddai un arall.

Dechreuodd y datgoedwigo ar y bryniau hyn yn yr Oes Efydd, gan barhau ar garlam yn Oes yr Haearn, pan gliriwyd y coetir bedw, derw, llwyfenni, pisgwydd, ynn a gwern gan drigolion y tai crynion hyn er mwyn tyfu grawn a chael tir pori.

Ond roedden nhw'n byw yma. Dywed Dr Toby Driver (awdur The Hill Forts of Iron Age Wales) wrtha' i "y gallai coed tân fod wedi bod yn broblem, ond y byddai unrhyw gymuned wledig wedi rheoli eu hadnoddau coedwigol ac wedi tyfu'r hyn roedd arnyn nhw ei angen ar gyfer adeiladu a choed tân. A dydi'r dyffryn ddim yn bell iawn os oes gennych chi ych i dynnu llond certi o goed." Er na wyddom ni hyn, efallai eu bod nhw hefyd wedi bod yn llosgi mawn – gyda gweunydd mawn wedi disodli'r coetir a gliriwyd.

Mae'n siŵr eu bod nhw wedi gwirioni ar y golygfeydd. Heddiw, fe wela' i dyrbinau gwynt oddi ar arfordir gogledd Cymru a blerdwf llwydaidd Lerpwl. Ond fe fyddai mynyddoedd Eryri, sy'n taranu i fyny'r gorllewin tu hwnt i flanced farugog Dyffryn Clwyd, wedi bod mor drawiadol o wyn bryd hynny ag y maen nhw heddiw.





# Bws

Mae gwasanaeth bws o Ddinbych i'r Wyddgrug yn rhedeg yn aml i Fodfari – Rhif 14 gan P&O Lloyd a rhif 14D ac 14M gan Townlynx. Mae gwasanaeth rhif 76 M&H ac Arriva Cymru rhwng Dinbych a Llangwyfan hefyd yn galw ym Modfari unwaith y dydd.

Mae Bodfari yn lleoliad da i gerdded bryniau gan fod Llwybr Clawdd Offa'n croesi drwyddo, sy'n cynnig dewis helaeth o lwybrau cerdded. Ac os oes gennych chi amser wrth aros am eich bws, mae Eglwys San Steffan yn lle difyr i fynd, gyda'r Dinorben Arms drws nesaf ar agor drwy'r dydd, saith diwrnod yr wythnos, yn cynnig bwyd, diod a chornel fach gynnes i aros.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sirddinbych.gov.uk a chwilio am gludiant cyhoeddus.

I gynllunio eich taith, defnyddiwch www.traveline.cymru


Cofiwch fod tocyn 1bws yn gadael i chi deithio faint fynnwch chi o amgylch gogledd Cymru yn defnyddio bron pob gwasanaeth.












1km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

# Taith gerdded

**Os yw'r gaeaf yn cynnig tywydd oer, ffres ac awyr glir, yna ewch am dro i'r bryniau. Mae Bryniau Clwyd yn gadwyn o fryniau sy'n rhedeg i'r de o Brestatyn. Mae'r gylchdaith 11 milltir o hyd hon, sy'n cyfuno rhan o Lwybr Clawdd Offa gyda llwybrau eraill, yn galw am lefel dda o ffitrwydd ac yn dringo hyd at 440m.**

Mae'n dilyn llwybrau sydd wedi'u marcio ond, fel bob amser mewn tiroedd bryniog, ewch â map gyda chi, gan ofalu eich bod yn gwybod sut i'w ddarllen, a byddwch yn barod am dywydd gwael. Mae yna ddigon o waith dringo egnïol i'w wneud ar y daith hon i'ch cadw chi'n gynnes, ond fe ddylech chi ddisgwyl awel ffyrnig ar y copaon. Ar ddiwrnodau clir, does dim i guro'r golygfeydd tuag Eryri, dros Loegr ac ar draws arfordir gogledd Cymru.



1. Dewch oddi ar y bws yn safle Victoria Terrace, Bodfari ar gyfer Llwybr Clawdd Offa. Dechreuwch drwy ddilyn yr arwyddion amlwg am Lwybr Clawdd Offa tua'r de. Dilynwch y llwybr hwn ar draws Afon Chwiler a chaeau bryniog, gan ddringo'n raddol.

2. Pan gyrhaeddwch chi gyffordd o lwybrau, ewch ar hyd yr isaf o lwybrau'r bryn (mae yna un is byth os byddai'n well gennych chi daith â lôn fwy gwastad), gan ddilyn Taith Clwyd i Goed Llangwyfan.

3. Mae gennych chi ddewis o lwybrau i fyny drwy Goed Llangwyfan, oedd yn arfer bod yn goedwig goniffer ond sydd bellach yn goetir cymysg ifanc.

4. Yn y maes parcio uchaf, ailymunwch â Llwybr Clawdd Offa. Dilynwch yr arwyddion am Foel Arthur.

5. Pan gyrhaeddwch chi'r arwydd carreg, gadewch Lwybr Clawdd Offa i ddilyn y llwybr i gopa Moel Arthur, un o nifer o fryngaerau o Oes yr Haearn. Oddi yma, ewch yn ôl ar hyd yr un llwybr.

6. Yn ôl yn y maes parcio, dilynwch Lwybr Clawdd Offa tua'r gogledd, gan gadw at bennau'r bryniau.

7. Mae'r llwybr yn mynd â chi i gopa carnedd Penycloddiau, y mae ei rhagfuriau i'w gweld o hyd.

8. Cadwch at Lwybr Clawdd Offa, ond pan gyrhaeddwch chi'r gyffordd o lwybrau yn Fron Haul, fe allwch chi ddewis dychwelyd i Fodfari drwy gylchu'r bryn, cyn ailymuno â'ch llwybr yn ôl i Fodfari yn Fferm Grove Hall.



# Teithiau dydd eraill



**Mae dau lwybr anhygoel yn croesi drwy Sir Ddinbych – Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Ond nid taith hir yn unig sydd yma. Gellir cyflawni'r teithiau cerdded canlynol mewn diwrnod.**

### Llwybr Dyffryn Dyfrdwy

Llwybr cerdded eithaf heriol rhwng trefi Corwen a Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy, wedi'i rannu'n bump o rannau.

### Llwybr Gogledd y Berwyn

Llwybr llinol 13 milltir yn dringo Mynyddoedd Gogledd y Berwyn ar gyfer cerddwyr profiadol gyda'r cyfarpar cywir.


### Llwybr Prestatyn i Ddyserth

Llwybr tair milltir heb fawr o draffig yn dilyn yr hen reilffordd i fwynglawdd plwm Talargoch, coridor i fywyd gwyllt yn awr.

### Milltiroedd Cymunedol

Cyfres o deithiau cerdded cylchol o amgylch pentrefi Sir Ddinbych, oll yn cymryd oddeutu awr i'w cerdded ac yn cynnwys cyfrif calorïau defnyddiol.







**Llwybrau hygyrch**

Mae nifer o'n teithiau cerdded yn addas i rai mewn cadeiriau olwyn neu bramiau gan gynnwys ar hyd y promenâd yn y Rhyl a Phrestatyn, y llwybr ar lan yr afon ym Mharc Gwledig Loggerheads, Llwybr Prestatyn-Dyserth, Llwybr Camlas Llangollen a Llyn Morol y Rhyl.

**Llwybrau Cysegredig**

Yn cysylltu lleoliadau arbennig fel Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ein heglwysi plwyf canoloesol a ffynhonnau sanctaidd hynafol i greu llwybr gydag elfen ysbrydol.

**Llwybrau tref a dinas**

Peidiwch ag anghofio trefi marchnad prysur a chyrchfannau glan y môr enwog Sir Ddinbych. Dilyn ein llwybrau tref yw'r ffordd orau o'u harchwilio. Mae saith ohonynt i gyd – un ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos, a llwybr dinas o amgylch un o ddinasoedd lleiaf a'r mwyaf hanesyddol ym Mhrydain.

Mae'r teithiau cerdded yn hawdd ac maent yn llawn elfennau diddorol, felly caniatewch o leiaf hanner diwrnod ar gyfer pob taith o amgylch y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen.

Casglwch ein cyfres o daflenni am y llwybrau neu mae modd eu lawrlwytho ar: www.gogleddddwyraincymru.cymru



# Mentra'n Gall

**Cyn mentro i'r awyr agored, gofynnwch dri chwestiwn allweddol:**

### Ydw i'n ffyddiog bod gen i'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y diwrnod?

Byddwch yn ymwybodol o'ch lleoliad ac i ble yr ydych yn mynd. Defnyddiwch ap A map papur.

Dylech gynllunio ar gyfer aelod lleiaf abl eich grŵp.

Byddwch yn ymwybodol o'ch terfynau. Mae'n iawn i ddewis llwybr mwy addas neu i droi'n ôl.

Mae cymorth cyntaf yn achub bywydau. Gall gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng wneud gwahaniaeth mawr.

### Oes gen i'r offer cywir?

Arhoswch yn gynnes a sych. Gwisgwch esgidiau cerdded ac ewch â dillad inswleiddio a dillad glaw gyda chi.

Sicrhewch fod digon o fatri yn eich ffôn symudol, ond peidiwch â dibynnu arno ar gyfer dod o hyd i'r ffordd a chyfathrebu.

Cariwch dortsh a chwiban. Fe allent eich achub os yw'n dechrau tywyllu'n gynt na'r disgwyl.

Cadwch eich lefelau egni yn uchel. Dewch â bwyd a diod.

### Ydw i'n gwybod sut fydd y tywydd?

Gwiriwch y rhagolygon diweddaraf cyn cychwyn.

Byddwch yn hyblyg – does dim cywilydd mewn newid eich cynlluniau.

Peidiwch â gadael i'r llanw eich gadael yn sownd. Gwiriwch amseroedd y llanw.

Cofiwch eli haul a het haul os oes angen.

**www.adventuresmart.uk**

# Dilynwch y Cod Cefn Gwlad

**Bydd ymwelwyr yn sicr o gael croeso cynnes a diwrnod allan hyfryd os byddant yn dilyn y rheolau syml hyn. Y mantra ydi Parchu – Diogelu – Mwynhau:**

### Parchwch bawb

Byddwch yn ystyriol o'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad, yn gweithio ynddo ac yn ei fwynhau.

Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw.

Peidiwch â rhwystro mynediad i giatiau neu dramwyfeydd wrth barcio.

Byddwch yn gyfeillgar, dywedwch helo, rhannwch y lle.

Dilynwch arwyddion lleol a chadwch at lwybrau wedi'u marcio oni bai bod mynediad ehangach ar gael.

### Gofalwch am yr amgylchedd

Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi – peidiwch â gadael unrhyw ôl o'ch ymweliad.

Peidiwch â chynnau tân a pheidiwch â thanio barbeciw oni bai fod arwyddion yn rhoi caniatâd i chi

Cadwch eich cŵn dan reolaeth a chadwch olwg arnyn nhw bob amser.

Baw cŵn – rhowch ef mewn bag ac mewn unrhyw fin gwastraff cyhoeddus neu fynd ag o adref.

Gofalwch am natur – peidiwch ag achosi difrod nac aflonyddwch.



### Mwynhewch yr awyr agored

Gwiriwch eich llwybr ac amodau lleol.

Cynlluniwch eich antur – sicrhewch eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl a beth fedrwch chi ei wneud.

Mwynhewch eich ymweliad, crëwch atgof.

**www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

# Llwybrau heb geir

**Dyma sut y gallwch sicrhau bod eich llwybr yn Sir Ddinbych yn gwbl gynaliadwy:**

### Ar fws

Nid bws yw'r ateb bob tro – ond yn aml mae'r bws yn berffaith. Mae tocyn 1bws yn rhoi mynediad at bron i 200 o deithiau bws ar draws Gogledd Cymru. Rhowch gynnig ar y gwasanaeth bws Fflecsi sy'n teithio o amgylch trefi a phentrefi o amgylch Rhuthun a Dinbych ar gais. Lawrlwythwch yr ap neu ffoniwch 0300 234 0300 i drefnu taith.

www.sirddinbych.gov.uk
www.traveline.cymru

### Ar drên

Mae rhwydwaith rheilffyrdd mawr yn gwasanaethu Sir Ddinbych, gyda chysylltiadau o Lundain, Caergybi, Caer a Manceinion. Y gorsafoedd trên agosaf yw'r Rhyl a Phrestatyn ar brif reilffordd arfordir Gogledd Cymru a'r Waun ar reilffordd Caer i'r Amwythig.

www.trc.cymru
www.nationalrail.co.uk

### Ar gamlas

O Langollen, gallwch fynd ar daith ar gwch yn cael ei dynnu gan geffyl tuag at Raeadr y Bedol. Ond bydd angen modur, a hoffter o uchder, os ydych awydd hwylio dros yr "afon yn yr awyr" yn Nhraphont Ddŵr Pontcysyllte.

www.horsedrawnboats.co.uk

### Ar feic ac e-feic

Mae gwefan Beicio Gogledd Cymru yn cynnwys canllaw cyflawn i feicio a beicio mynydd yn y rhanbarth ac mae'n cynnwys mapiau a chardiau llwybrau y mae modd eu lawrlwytho, a rhestrau o siopau beics a lleoedd i aros. Mae modd llogi e-feic i fwynhau cefn gwlad heb y straen hefyd.

www.ridenorthwales.co.uk

### Mewn cerbyd trydan

Mae pwyntiau gwefru cyflym mewn meysydd parcio cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych gan gynnwys Corwen, Dinbych, Llanelwy, Llangollen, Rhuthun, Prestatyn a'r Rhyl. Mae gan Siop Fferm Rhug ger Corwen orsaf gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan sydd ar gael 24 awr y dydd.

